Adroddiad ar gynnydd Talwrn

Ebrill 2016

Talwrn: Egwyddorion craidd

- Gan adeiladu ei gyfalaf cymdeithasol gall ddatblygu sector gwirfoddol cryfach yng Nghymru sy'n fwy effeithiol o ran diwallu anghenion
- Gan weithio o'r canol allan: gall camau bach greu cylchoedd dylanwad pwerus os ceir effaith sy'n lledaenu e.e. os bydd pob aelod yn datblygu Talwrn lleol
- Mae'r Gymraeg yn gryfder allweddol i Gymru a'i phobl
- Mae defnyddio arferion seiliedig ar gryfderau yn meithrin gallu ac adnoddau mewn pobl a chymunedau
- Mae angen i sefydliadau gwirfoddol ddiffinio eu hanghenion eu hunain a dod o hyd i'w ffyrdd eu hunain o ddiwallu'r anghenion hynny
- Mae mesur a dangos effaith yn greiddiol i waith da
- Mae modelu a dangos arfer effeithiol yn fwy pwerus na siarad amdano
- Dod â mwy o arian i mewn i Gymru

Cyflwyniad

Gydag anogaeth gan Sefydliad Rank cyfarfu grŵp o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru ym mis Mai 2014 i ystyried sut i ddatblygu gallu ac annibyniaeth y sector gwirfoddol yng Nghymru. Roedd rhai o'r grŵp hwnnw am ddechrau cydweithio i ddatblygu cryfderau yn eu gwaith eu hunain ac yn fwy eang yng Nghymru. Ymunodd pobl newydd a gwnaeth eraill adael ac erbyn dechrau 2015 roedd Talwrn wedi'i ffurfio. Roedd y ‘talwrn’ yn draddodiadol yn gyfle i feirdd frwydro ynghylch syniadau a geiriau.

Mae Talwrn yn gynghrair o ddeuddeg o sefydliadau amrywiol yn y sector gwirfoddol gyda'u dibenion unigol eu hunain ond sy'n cynorthwyo pobl dan anfantais yng Nghymru. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwybodaeth a chreu ffyrdd o gydweithio a chydgynhyrchu gwaith. Mae aelodau o Talwrn yn herio ei gilydd,

darparu cymorth a chyngor, datblygu prosiectau newydd, galluogi dysgu a, thrwy rannu eu dysgu, yn llywio'r sector gwirfoddol cyfan.

Mae aelodau Talwrn o'r farn bod gan y sector gwirfoddol, drwy optimeiddio ac adeiladu ar ei asedau ar y cyd, y potensial i ddod yn llais cryf, annibynnol yng Nghymru ac yn gatalydd mwy effeithiol ar gyfer newid cymdeithasol. Mae Talwrn yn canolbwyntio ar adeiladu gwaith cynaliadwy; dod o hyd i ffyrdd i gymunedau ac unigolion gynhyrchu eu hadnoddau a'u hincwm eu hunain drwy ddull seiliedig ar gryfderau, a llywio polisi gwrthdlodi. Mae Talwrn yn ceisio adeiladu gallu ac adnoddau unigol a chymunedol drwy ganolbwyntio ar dair thema allweddol:

- grymuso: sut y gall sector gwirfoddol Cymru gynorthwyo a datblygu cryfderau unigolion, teuluoedd a chymunedau
- menter: sut i feithrin mentrau cymdeithasol hunangynhaliol a hyrwyddo menter bersonol a chymunedol
- effeithiolrwydd y sector gwirfoddol: adeiladu gallu ac adnoddau sefydliadau gwirfoddol i ddiwallu anghenion.

Mae Talwrn yn ceisio defnyddio tystiolaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n effeithiol y tu mewn i Gymru a'r tu allan iddi, ac adeiladau ar hyn, i sefydlu modelau effeithiol ar gyfer meithrin gallu ac adnoddau mewn pobl a'r sector gwirfoddol. Mae'r pwyslais ar sut y gall y sector gwirfoddol gynorthwyo pobl i ddeall y materion y maent yn eu hwynebu, pontio bylchau rhyngddynt hwy a'r farchnad lafur, ac yn y pen draw gweithredu i wneud newidiadau i'w bywydau a'r gymuned gyfan.

Mae talwrn yn gweithredu fel cymuned o arfer sydd hefyd â rôl sy'n wynebu tuag allan o amgylch dylanwadu ar bolisi ac arfer.

Cymuned ymarfer

Mae Etienne Wenger yn crynhoi Cymunedau o Ymarfer fel “grwpiau o bobl sy'n rhannu pryder neu angerdd am rywbeth maent yn ei wneud a dysgu sut i'w wneud yn well wrth iddynt ryngweithio'n rheolaidd”. Mae aelodau o gymunedau ymarfer yn cymryd rhan mewn gweithgarwch a thrafodaethau ar y cyd, yn helpu ei gilydd ac yn rhannu perthnasoedd i adeiladau gwybodaeth sy'n eu galluogi i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Nid yw cymuned o arfer dim ond yn gymuned o ddiddordeb – mae aelodau'n ymarferwyr ac maent yn datblygu stoc o adnoddau: profiadau, straeon, offer, ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau sy'n dychwelyd.

Adnoddau

Ym mis Mai 2015 dyfarnwyd £4950 i Talwrn gan Sefydliad Rank i gwmpasu ei gostau craidd ac ym mis Medi 2015 dyfarnwyd grant o £35,000 iddo gan Sefydliad Garfield Weston.

Aelodaeth Talwrn yw ei adnodd allweddol. Dros amser mae hyn wedi tyfu yn grŵp cryf sy'n darparu mesurau cyfartal o her, cymorth a symbyliad. Dyma'r aelodau craidd:

Brian Thirsk – cyd-sylfaenydd Sylfaen Cymunedol Cyf. (Gwynedd);

Ffion Farnell - Cyfarwyddwr Tir Coed (Ceredigion);

Jen O'Hara-Jakeway - Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gofalwyr Powys;

Simon James – Prif Weithredwr Interlink (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Rhondda Cynon Taf);

Alison Hill – Prif Swyddog Partneriaeth Parc Caia (Wrecsam);

Joanne Bartlett – Swyddog Arweiniol Cymunedau Llewyrchus, Cymunedau yn Gyntaf Gogledd Ebwy Fach (Blaenau Gwent);

Sarah Lloyd-Jones – Cyfarwyddwr Uned Pobl a Gwaith;

Elwyn James – Prif Weithredwr y Ffatri Gelf (Rhondda Fach);

Sarah Stone – Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Samariaid Cymru (gwirfoddolwyr ar draws Cymru);

Chris Johnes - Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (Cymru gyfan)

Mark Richardson – Cyfarwyddwr Social Impact Consulting. Cymrawd, Ysgol Fusnes Bangor (Cymru Gyfan)

Louisa Addiscott – Swyddog Arweiniol Cymunedau Llewyrchus Adfywio Cymunedol Glyncoch/Cymunedau yn Gyntaf (Cwm Cynon).

Ymhlith y bobl eraill a aeth i'r sesiynau mae Tom Barham, o Book of You – rhaglen ddementia a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Bangor; Guy Evans, pennaeth Cymdeithas Gofal, elusen digartrefedd a chymorth cyflogaeth yng Ngheredigion; Wendi Jones, pennaeth gwasanaethau Gisda, sefydliad datblygu cymorth digartrefedd a menter gymdeithasol sy'n gweithio yng Ngwynedd; Carl Cooper Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO).

Gweithgareddau

Trafodaeth fyfyriol

Ers dechrau 2015 mae Talwrn wedi cyfarfod wyth gwaith. Mae'r cyfarfodydd yn Llandinam yng nghanolbarth Cymru ac yn dechrau gyda chrynodeb o waith aelodau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys datblygiadau, cynlluniau a heriau. Mae'r sesiynau hyn yn darparu cymorth cyfaill beirniadol ac yn galluogi i gydweithredu newydd a darnau o waith ar y cyd i ddod i'r adwy. Yn dilyn hyn cynhelir sesiwn fwy strwythuredig a all ganolbwyntio ar adolygiad gan gymheiriaid o gais cyllido, trafodaeth gyda siaradwr gwadd neu ganolbwyntio ar fater penodol.

Ym mis Ionawr 2016 cyfarfu Talwrn am sesiwn preswyl 24 awr i gynllunio'r flwyddyn i ddod. Golygai cyllid gan Sefydliad Garfield Weston y gallai aelodau fod yn fwy uchelgeisiol am y gwaith. Penderfynwyd strwythuro cyfres o weithdai thematig o dan arweiniad aelodau ac yn agored i unrhyw un a oedd am fod yn bresennol. Byddai'r gweithdai hyn yn trafod materion allweddol sy'n berthnasol i'r sector gwirfoddol yng Nghymru ac yn arwain datblygu papur byr a blog o amgylch pob pwnc a fyddai'n cael eu rhannu drwy wefan a chyflwyniadau. Ar ddiwedd y flwyddyn bydd y papurau'n cael eu cyfuno mewn un ddogfen.

Gweithdai thema

Nodwyd chwe gweithdy thematig i'w cynnal rhwng mis Mawrth 2016 a mis Ionawr 2017:

- Gwerthuso – sut rydym yn ymdrin â hunanwerthuso, mapio canlyniadau, a chyflwyno gwaith; gan gynnwys sut rydym yn gwerthuso effaith Talwrn ar aelodau a'r sector. 4 Mawrth – o dan arweiniad Mark Richardson

- Menter gymdeithasol/gymunedol – chwalu'r mythau ac adolygu'r ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddo. Yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio. 6 Ionawr – o dan arweiniad Alison Hill.

- Arweinyddiaeth a chynaliadwyedd – Beth yw nodweddion sefydliadau sy'n gynaliadwy? Nodweddion goroesi gan gynnwys staffio, datblygu sgiliau, meddwl yn feirniadol. 6 Mai – o dan arweiniad Sarah Stone.

- Cyfathrebu – cyfleu'r neges, datblygu enw da'r sector. 4 Tachwedd – o dan arweiniad Elwyn James.

- Trosglwyddo a rheoli asedau – cydgynhyrchu, ad-drefnu llywodraeth leol, sut gall pobl reoli'r hyn sy'n digwydd yn eu cymuned. 2 Medi – o dan arweiniad Chris Johnes.

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r goblygiadau yn y sector gwirfoddol. 1 Gorffennaf – o dan arweiniad Jenny O'Hara-Jakeway.

Bydd yr aelod Talwrn sy'n arwain ar y mater hefyd yn blogio syniadau a chanfyddiadau allweddol dros y ddau fis tan i'r thema nesaf ddechrau.

Talwrn Lleol

Mae pob aelod wedi ymrwymo i ddatblygu Talwrn lleol o tua deg sefydliad. Gall hwn fod yn rhwydwaith presennol y mae rhywfaint o'r meddwl ynghylch Talwrn yn cael ei drafod a'i ddatblygu; gall fod yn ddarn lleol o waith a wneir gyda phartneriaid i ddatblygu meddwl o'r newydd; neu gall fod yn ddarn o ymchwil weithredu gyda phartneriaid. Ymhlith yr enghreifftiau o Dalyrnau lleol hyd yma mae:

Rwyf wedi sefydlu cyfarfod (sydd bellach yn cael ei gynnal bob 3 mis) gyda mwyafrif elusennau coetir Cymru'n edrych ar gryfhau llais y sector, gan fapio darpariaeth, ymchwilio i gyfleoedd partneriaeth, arfer gorau a gwella cyfathrebu rhwng sefydliadau. Cafodd hyn ei ysgogi gan fy nghysylltiad â'r Talwrn (Ffion Farnell)

Rydym yn edrych ar ein dull ei hunain fel Cyngor Gwirfoddol Sirol, ar y cymorth rydym yn ei ddarparu a sut rydym yn edrych ar ragor o fodelau o gymorth cymheiriaid gyda grwpiau a sut y gall ein rôl ganolbwyntio mwy ar ddod â grwpiau ynghyd a chysylltu. Rydym yn ymwybodol pan fyddwn yn arwain, gallwn fod yn rhwystr am nad ydym am beryglu suro ein perthynas â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus (Simon James)

Creu Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Wrecsam (WSEN). Sefydlais hyn yn rhannol o ganlyniad i ysbrydoliaeth a gafwyd drwy fy nghyfranogiad yn Talwrn. Gallwn weld gwerth gweithio mewn partneriaeth yn genedlaethol ac yn lleol..... Yn dilyn ein trafodaethau ar effaith yn Talwrn ar ddechrau mis Mawrth, rhoddais fonitro effaith ar yr agenda ar gyfer fy nghyfarfod WSEN ar 14 Mawrth. Cawsom drafodaeth dda yn y rhwydwaith am effaith ac rwy'n credu bod hyn wedi codi sawl sgwarnog ymhlith yr aelodau! (Alison Hill)

Mae'r Uned Pobl a Gwaith, y Ffatri Gelf ac Interlink yn gweithio gyda'i gilydd ar ddull seiliedig ar ardal o ran mynd i'r afael ag anfantais yn y Rhondda o'r enw Rhondda Gryfach. Mae grŵp llywio wedi cael ei ddatblygu ac mae'r gwaith yn cael budd o ganfyddiadau Talwrn.

Adolygu effaith

Gofynnwyd i aelodau am werth cyfarfodydd Talwrn. Mae Simon James yn ysgrifennu bod trafodaethau Talwrn yn darparu:

- *mynediad i enghreifftiau da o brosiectau a gweithgarwch y trydydd sector a datblygu cymunedol yng Nghymru*
- *dealltwriaeth gyffredin o'r heriau rydym yn eu hwynebu*
- *rhywfaint o le i feddwl i ffwrdd o gyflawni ar y rheng flaen*

- *mwy o ymwybyddiaeth o sut, fel sector gwirfoddol, rydym yn dod yn ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus tra'r hyn y dylem fod yn elusennau ymatebol sy'n ymateb i anghenion unigolion a'r gymuned.*

Ysgrifennodd Louisa Addiscott:

Rwyf wedi cael cymorth gwerthfawr a chryfhau fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o waith y sector drwy rannu arfer da ag aelodau eraill. Mae'r profiadau amrywiol a'r tebygrwydd a rennir gan bartneriaid yn Talwrn wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr imi a'm galluogi i ddeall rhai o'r materion rwyf wedi'u hwynebu yn well. Drwy drafod a myfyrio, rwyf wedi cymryd y dysgu hwn a'i weithredu mewn arfer.

Ar gyfer Mark Richardson, mae Talwrn wedi ehangu ei ddealltwriaeth o'r materion mae pobl yng Nghymru yn eu hwynebu:

Y brif fantais imi o fod yn rhan o Talwrn yw'r safbwynt ehangach ar faterion cymdeithasol yng Nghymru na'r hyn rwy'n ei gael gan rwydweithiau eraill rwyf yn ymwneud â hwy. *Mae natur amrywiol y grŵp, ond gydag ymrwymiad a rennir i greu Cymru well, decach, fwy cynaliadwy, yn fy helpu i roi fy ngwaith fy hun mewn cyd-destun ehangach. Mae hefyd wedi agor fy llygaid i'r cyfleoedd o weithio'n agosach gydag ymddiriedolaethau elusennol i gyflawni newid cymdeithasol yng Nghymru, ac mae wedi arwain at gydweithio newydd.*

Nododd Jenny O'Hara-Jakeway sut roedd y dysgu hwn yn effeithio ar ei gwaith:

Rydym yn llawer mwy hyderus am ein rôl fel sefydliad sector gwirfoddol, bod yn annibynnol, gwthio ffiniau ymarfer a bod yn fwy credadwy yn ein dulliau. Mae ansawdd ein cynllun strategol, yr ydym yn ei lunio ar hyn o bryd, yn well o ganlyniad i hyn.

Dod ag arian i mewn i Gymru

Un o amcanion allweddol a nodwyd Talwrn oedd i ragor o arian ddod i Gymru er mwyn cynorthwyo gwaith gyda phobl a chymunedau sydd o dan anfantais oherwydd tlodi, iechyd gwael a/neu natur wledig. Mae Talwrn yn gweithio i wneud hyn drwy hyrwyddo cydweithio a chryfhau gwaith; adolygiad cymheiriaid o gynigion cyllid a chynlluniau prosiect; a datblygu cysylltiadau gyda chyllidwyr. Mae aelodau'n gweithio

ar y dulliau hyn gyda'i gilydd, a chyda grwpiau a sefydliadau eraill yn eu rhwydweithiau.

Cydweithio

Mae cynnig wedi'i gyflwyno i'r Loteri am brosiect chwe phartner (y mae pedwar ohonynt yn aelodau o Talwrn) i fodelu gwaith effeithiol sy'n canolbwyntio ar y person, seiliedig ar gryfderau gyda phobl sy'n byw mewn tlodi. Mae cydweithio arall wedi cryfhau gwaith aelodau:

> *Mae rhwydwaith gwell hefyd wedi arwain at gydweithio ar brosiectau fel prosiect Ysgolion Coedwig Gofalwyr Ifanc gyda Tir Coed ac ailfrandio ein sefydliad gyda'r Ffatri Gelf. (Jenny O'Hara-Jakeway)*

Mae Elwyn James yn rhedeg menter gymdeithasol, y Ffatri Gelf, sy'n cynnwys stiwdio ddylunio a datblygu gwefannau. Mae Talwrn yn helpu i ddatblygu sail cleientiaid newydd.

> *Rydym wedi dylunio gwefan Talwrn ac ennill cryn dipyn o waith gan bartneriaid eraill:*

- *Gwefan ar gyfer Tir Coed.*
- *Adroddiadau Effaith ar gyfer Tir Coed*.
- *Gwefan ("Dod o hyd i Grant") ar gyfer Interlink.*
- *Llyfryn ar gyfer Interlink.*
- *Gwaith ar y prosiect 'Appening Rhondda gyda'r Uned Pobl a Gwaith.*

Nododd Ffion Farnell hefyd sut y mae Talwrn yn helpu i ddatblygu rhwydweithiau a chysylltiadau newydd:

- *Daeth grŵp yng Nghastell-nedd Port Talbot i ymweld â Thir Coed ar ôl i Sylfaen drefnu eu bod yn cysylltu â ni, gall gwaith pellach ddilyn*
- *Roedd ymweliad gan Sylfaen i drafod cyfleoedd pellach yn ddiddorol iawn, gall gwaith pellach ddilyn*
- *Gwnaethom gofrestru gydag ADFYWIO Cymru ar ôl i Elwyn greu'r cyswllt i mi*

Cynigion a chynlluniau cyllido:

Yn dilyn ymweliad â Talwn gan Brif Weithredwr Sefydliad Rank yn yr hydref gwnaeth tri aelod – yr Uned Pobl a Gwaith, Gwasanaeth Gofalwyr Powys ac Interlink – geisiadau llwyddiannus i'w rhaglen interniaeth wedi'i chyllido (cyfanswm buddsoddiad gwerth dros £60,000 yn ystod 2016). Dechreuodd y tri intern hyn ym mis Ionawr 2016 ac maent yn cael y dasg o helpu i ddatblygu gwaith eu sefydliad.

> *Mae ein Interniaeth Rank, sydd wedi digwydd o ganlyniad i Talwrn, yn ein helpu i ddatblygu ein gwaith gyda Gofalwyr Ifanc a deall yn well beth sy'n eu helpu i lwyddo mewn dysgu. (Jenny O'Hara-Jakeway)*

Mae intern yr Uned Pobl a Gwaith, Hibah Iqbal, yn darparu cymorth ymchwil i aelodau Talwrn a'u rhwydweithiau i helpu i gryfhau eu gwaith a chynigion cyllido. Hyd yma mae wedi darparu gwybodaeth ymchwil gefndir i bedwar partner:

> *Ar hyn o bryd rwy'n ceisio nodi cyllidwyr grant a all fod â diddordeb mewn edrych ar y bwlch gwasanaethau cymorth llythrennedd rydym wedi dod o hyd iddo ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed nad ydynt mewn addysgu, hyfforddiant na gwaith sydd â dyslecsia. Y gwaith a wnaeth Hibah ar ymchwil a pholisi yn y maes hwn fydd y sail ar gyfer y ceisiadau a gobeithio y bydd hyn yn ein harwain at gael gafael ar gyllid. Cynyddodd gwaith Hibah fy ngwybodaeth am y maes pwnc ac mae wedi rhoi'r hyder imi ymgymryd ag ymchwil debyg fy hun. (Val Williams, Sylfaen)*

Gwnaeth Sylfaen hefyd gael grant gan Sefydliad Rank i gynorthwyo hyfforddiant iddynt hwy eu hunain a'u partneriaid o ran nodi a chynorthwyo pobl ifanc â dyslecsia a rhwystrau dysgu eraill.

Mae aelodau Talwrn wedi sicrhau cyllid gan ffynonellau eraill. Mae Elwyn James wedi nodi sut y mae adolygiad gan gymheiriaid wedi'u cynorthwyo ar adeg hollbwysig '*Rwyf wedi dysgu llawer am ysgrifennu cynnig cyllido da a chael £25k gan Sefydliad Moondance o ganlyniad uniongyrchol i hynny. Ni fyddem yma nawr hebddo*.' Roedd Ffion Farnell hefyd yn llwyddiannus gyda'r un cyllidwr '*Roeddwn wedi dod yn ymwybodol o Sefydliad Moondance drwy Talwrn. Gwnaethom gais ac maent wedi ein cynorthwyo gyda*g *£20,000 tuag at flwyddyn 3 ein prif brosiect presennol ac rwy'n gobeithio y byddant yn cefnogi ein prosiect nesaf*'. Mae Tir Coed hefyd yn gwneud cais am gyllid prosiect i Sefydliad Rank.

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys wedi cael llwyddiant cyllid hefyd:

Mae bod yn rhan o Talwrn wedi ein helpu i ddatblygu ein gwaith gyda Gofalwyr Ifanc a gwneud cais llwyddiannus i Sefydliad Henry Smith a Sefydliad Waterloo, gan godi 165,000 tuag at gymorth i ofalwyr ifanc ym Mhowys wledig. Mae dysgu rhagor am Gronfeydd Ymddiriedolaeth a sut i wneud cais amdanynt wedi bod yn rhan annatod o'r llwyddiant hwn. (Jenny O'Hara-Jakeway)

Cysylltiadau ag arianwyr;

Mae gwybodaeth am Talwrn a'i waith wedi'i darparu i Ymddiriedolaeth Tudor, Sefydliad Esmée Fairbairn, y Gronfa Loteri Fawr, a'r Sefydliad Datblygu Cymunedol yng Nghymru. Aeth Cadeirydd a Phrif Weithredwr Sefydliad Rank i gyfarfod arbennig o Talwrn ym mis Chwefror 2016 ac mae Kai Wooder, swyddog grantiau a chanddi gyfrifoldeb am Gymru wedi mynd i gyfarfodydd hefyd. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi darparu rhoi dealltwriaeth werthfawr o sut y mae sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol yn gweithio, a hefyd yn gyfle i rannu rhai o'r materion allweddol sy'n wynebu'r sector gwirfoddol yng Nghymru.